C.3	Nid yw cyngor a gwybodaeth berthnasol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau.	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw cyngor a gwybodaeth yn cael eu targedu'n briodol at y gynulleidfa berthnasol. Nid yw fformat a chyflwyniad cyngor a gwybodaeth wedi'u dylunio'n dda ar gyfer y gynulleidfa. Nid yw'r gynulleidfa a fwriedir a/neu gwmpas cyngor a gwybodaeth yn eglur. Rhoddir amser neu adnoddau annigonol i lunio a/neu ystyried cyngor/gwybodaeth. 	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol oherwydd diffyg gwybodaeth a/neu gyngor. Mae penderfyniadau amhriodol yn arwain at aneffeithlonrwydd / risg ariannol a risg i enw da.	Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru / Y Gweithredwr / Rheolwr Buddsoddi / Cynghorydd Goruchwylio / Cynghorwyr a Chyflenwyr Eraill Hirdymor	<ul style="list-style-type: none"> Caiff personél Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn arbennig, eu hannog yn weithredol i gynnig adborth ar berthnasedd a chyflwyniad cyngor a gwybodaeth Caiff cyngor a gwybodaeth eu cyflwyno mewn o leiaf dau fformat fel rheol (llafar ac ysgrifenedig) Sicrhreir bod cyn lleied â phosibl o ddiweddariadau llafar yn unig Rhoddir amser a chyfleoedd digonol i ofyn cwestiynau egluro Caiff cyngor neu wybodaeth ddrافت eu rhannu gyda'r Awdurdod sy'n Lletya fel rheol, ar gyfer archwiliad ymwybyddiaeth, cyn eu rhannu neu eu cyflwyno Mae strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn galluogi archwiliadau cadw cydbwysedd lluosog cyn gwneud penderfyniadau 	Presennol			👍	Amh.	Gweithgor Swyddogion	Amh.
	Gweithredol / Enw Da / Ariannol					4	1	4				



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

DYDDIAD 20 MEDI 2023

PWNC

POLISIŌAU / CYNLLUNIAU NEWYDD

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo Polisi Toriadau a Chamgymeriadau PPC

RHESYMAU:

Mae Polisi Toriadau a Chamgymeriadau wedi'i ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae gofyn i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

**CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

DYDDIAD 20 MEDI 2023

POLISIÄU / CYNLLUNIAU NEWYDD

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Polisi Toriadau a Chamgymeriadau wedi'i ddatblygu ar gyfer PPC sy'n amlinellu polisi a gweithdrefnau'r Bartneriaeth ar gyfer adnabod, rheoli, a lle bo'r angen, adrodd am dor-cyfraith fel y nodir yn adran 70 Deddf Pensiynau 2004.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i aelodau etholedig a swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau yn rhinwedd PPC yn ogystal ag aelodau byrddau pensiwn lleol yr Awdurdodau Cyfansoddol y mae PPC yn ymgysylltu â hwy. Mae'n nodi cyfrifoldebau y grwpiau hyn i adnabod, rheoli a lle bo'r angen, i adrodd am dor-cyfraith fel maent yn berthnasol i lywodraethu, rheoli a gweinyddu'r Bartneriaeth.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob tair blynedd, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi gerbron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb	Cyfreithiol	Cyllid	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio
OES	DIM	DIM	DIM	DIM
Polisi Bydd y Polisi Toriadau a Chamgymeriadau yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN

Partneriaeth Pensiwn Cymru
Polisi Toriadau a Chamgymeriadau

Cyflwyniad

1. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi paratoi'r ddogfen hon sy'n amlinellu ei pholisi a'i gweithdrefnau ar gyfer adnabod, rheoli, a lle bo'r angen, adrodd am dor-cyfraith fel y nodir yn adran 70 Deddf Pensiynau 2004.
2. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i aelodau etholedig a swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau yn rhinwedd PPC yn ogystal ag aelodau byrddau pensiwn lleol yr Awdurdodau Cyfansoddol y mae PPC yn ymgysylltu â hwy. Mae'n nodi cyfrifoldebau'r grwpiau hyn i adnabod, rheoli a lle bo'r angen, i adrodd am dor-cyfraith fel maent yn berthnasol i lywodraethu, rheoli a gweinyddu'r Bartneriaeth. Nid yw'r polisi hwn yn ymdrin â chyfrifoldeb "adroddwyr" eraill (y disgrifir yn ddiweddarach yn y polisi hwn), mewn perthynas â'u rhwymedigaeth i adrodd am dor-cyfraith.
3. Wrth ddrafftio a defnyddio'r polisi hwn, bydd y Bartneriaeth yn ystyried paragraffau 241 i 275 Cod Ymarfer rhif 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau: *Governance and administration of public service pension schemes* ("y Cod Ymarfer"), sy'n ymdrin â thor-cyfraith.
4. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob tair blynedd, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau sylweddol i'r polisi gerbron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

Trosolwg

5. Mae adnabod, rheoli ac adrodd ar dor-cyfraith yn ofyn statudol; gall methu ag adrodd am dor-cyfraith perthnasol arwain at gosbau sifil gan y Rheoleiddiwr Pensiwn.
6. Ar yr un pryd, yn ogystal ag adnabod, unioni a lle bo'r angen, adrodd am dor-cyfraith penodol, mae tor-cyfraith o'r fath yn rhoi cyfle i ddysgu o gamgymeriadau ac adolygu a gwella prosesau yn y meysydd lle y digwyddodd y tor-cyfraith.
7. Mae gofyn i bawb sy'n rhan o weinyddu a rheoli PPC ddefnyddio agwedd ragweithiol i adnabod, rheoli ac adrodd am bob tor-cyfraith sydd wedi digwydd, neu sy'n debygol o ddigwydd.
8. Bydd yr Awdurdod Lletya yn cynnal cofnod o'r holl dor-cyfraith sy'n berthnasol i reoli'r Bartneriaeth.
9. Pan fo tor-cyfraith wedi digwydd, dylid ei adnabod a'i gofnodi naill ai fel maes o ddiffyg cydymffurfiaeth dan Reoliad CPLIL, tor-cyfraith dan Gyfraith Pensiwn fel y'i diffinnir yn adran 13 Deddf Pensiwn 2004 neu God Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiwn neu unrhyw system reoleiddio arall.
10. Ni all y sawl sydd â chyfrifoldebau adrodd ddibynnu ar aros i adroddwyr eraill adrodd am dor-cyfraith pan fo wedi digwydd. Pan fo tor-cyfraith wedi digwydd ac wedi cael ei adnabod, dylid ei gofnodi, ei asesu a, lle bo'r angen, ei adrodd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Beth yw tor-cyfraith?

11. "Gweithred o dorri neu fethu â glynu at gyfraith, cytundeb, neu god ymddygiad." yw tor-cyfraith. Yng nghyd-destun y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), gall hyn gynnwys sawl agwedd o reoli a gweinyddu'r cynllun, gan gynnwys, er enghraifft, methiant:
 - i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol dan Reoliadau CPLIL;
 - i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol dan brif ddeddfwriaeth, canllawiau statudol neu godau ymarfer perthnasol;

- i gynnal cofnodion cywir;
- i weithredu ar unrhyw weithred dwyllodrus neu anwaith sy'n cael ei adnabod.

Cyfrifoldebau mewn perthynas â thor-cyfraith

12. Mae'r cyfrifoldeb i adrodd am dor-cyfraith yn syrthio ar y sawl a ganlyn (sy'n cael eu hadnabod fel "adroddwyr"):
 - Aelodau etholedig sy'n gwasanaethu ar y Cydbwyllgor Llywodraethu ("CLI");
 - Aelodau cyfetholedig y Cydbwyllgor Llywodraethu;
 - Swyddogion sy'n bodloni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth;
 - Aelodau byrddau pensiwn lleol sy'n mynychu Sesiynau Ymgysylltu Cadeiryddion Byrddau Pensiwn;
 - Ymgynghorwyr proffesiynol; a
 - Darparwyr trydydd parti (pan fônt yn cael eu cyflogi).
13. Nid oes dim yn y polisi hwn sy'n diystyru cyfrifoldebau unigolion i adrodd am dor-cyfraith ac mae rhwydd hynt i unrhyw unigolyn sy'n credu fod y gyfraith wedi'i thorri adrodd am hynny yn annibynnol i'r polisi hwn.
14. Mae'r polisi hwn yn bodoli i gefnogi adroddwyr, i hwyluso adrodd am dor-cyfraith ac i gasglu gwybodaeth am achosion o dor-cyfraith er mwyn medru dysgu o'r gwersi hynny a gweithredu i'w hatal.
15. Nid yw'r polisi hwn ond yn berthnasol i aelodau etholedig, swyddogion ac aelodau byrddau pensiwn lleol Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth. Mater i'r adroddwyr eraill yw sicrhau bod ganddynt weithdrefnau a pholisïau digonol yn eu lle i adnabod, asesu a, lle bo'r angen, i adrodd ar dor-cyfraith. Bydd y Swyddog Monitro neu Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya yn gweithredu'r camau angenrheidiol i ystyried y tor-cyfraith ac adrodd i'r Rheoleiddiwr, yn hytrach na chael un o'r "adroddwyr" eraill yn adrodd am y tor-cyfraith.

Y gofyn i adrodd am dor-cyfraith

16. Mae'r penderfyniad p'un ai i adrodd am dor-cyfraith sy'n cael ei ganfod ai peidio yn dibynnu ar:
 - p'un a oes achos rhesymol i gredu bod tor-cyfraith wedi digwydd;
 - ac os felly, p'un a yw'r tor-cyfraith yn debygol o fod o bwys materol i'r Rheoleiddiwr?
17. Nid oes angen adrodd i'r Rheoleiddiwr ar bob tor-cyfraith sy'n cael ei ganfod. Er enghraifft, lle y gellir dangos fod camau priodol yn cael eu cymryd i unioni'r tor-cyfraith, neu fod y tor-cyfraith wedi digwydd yn sgil mân broblemau cychwynnol â systemau neu brosesau newydd neu ddiwygiedig, efallai na fydd angen adrodd am y digwyddiad i'r Rheoleiddiwr. Mae'n dal yn angenrheidiol i bob digwyddiad o dor-cyfraith gael ei gofnodi yn lög y Bartneriaeth ac i'r Awdurdod Lletya ei gynnal. Bydd y lög hwn yn cael ei adolygu'n barhaus gan yr Awdurdod Lletya i ganfod unrhyw dueddiadau yn y lög tor-cyfraith a allai fod yn arwydd o fethiant systemig.

Pa bryd mae angen adrodd am dor-cyfraith i'r Rheoleiddiwr?

18. Dylid rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr am dor-cyfraith cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol unwaith bod achos rhesymol i gredu bod tor-cyfraith wedi digwydd a'i fod o bwys perthnasol i'r Rheoleiddiwr.

Mewn unrhyw achos, pan ystyrir bod tor-cyfraith o bwys perthnasol, rhaid ei adrodd i'r Rheoleiddiwr ddim hwyrach nag un mis ar ôl dod yn ymwybodol o'r tor-cyfraith neu o'r tor-cyfraith tebygol.

19. Pan ystyrir bod tor-cyfraith o'r fath arwyddocâd fel bod angen i'r Rheoleiddiwr ymyrryd ar frys (e.e. twyll difrifol), dylid dwyn y mater i sylw'r Rheoleiddiwr ar unwaith (e.e. drwy eu ffonio'n uniongyrchol). Dylid cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Rheoleiddiwr, wedi'i farcio fel "brys" er mwyn tynnu sylw'r Rheoleiddiwr ato.


Asesu'r "achos rhesymol"

20. Mae'n bwysig fod yr adroddwr yn fodlon bod tor-cyfraith wedi digwydd mewn gwirionedd, yn hytrach na'i fod yn gweithredu ar sail amheuaeth bod rhywbeth o'r fath wedi digwydd.
21. Felly, bydd angen i Swyddog Monitro neu Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya, ac os yw hynny'n briodol, yr aelodau etholedig gynnal gwiriadau cadarn wrth weithredu ar unrhyw amheuaeth o dor-cyfraith. Pan fo angen, bydd hyn yn cynnwys ceisio cyngor cyfreithiol a chyngor arall (megis archwilwyr neu ymgynghorwyr buddsoddi).

Penderfynu p'un a yw tor-cyfraith "o bwys perthnasol" ai peidio ac y dylid ei adrodd i'r Rheoleiddiwr

22. Mae'r Rheoleiddiwr wedi cynhyrchu coeden benderfynu i gynorthwyo cynlluniau i ganfod difrifoldeb tor-cyfraith a ph'un a ddylid adrodd amdano. Wrth benderfynu ar berthnasedd unrhyw dor-cyfraith neu dor-cyfraith tebygol, bydd y Cyngor, swyddogion a bwrdd pensiwn lleol yn ystyried yr hyn a ganlyn ymhob achos:
 - achos - e.e. anonestrwydd, llywodraethu gwael, gwybodaeth anghyflawn neu anghywir, gweithredu'n groes neu fethu â gweithredu'n unol â'r gyfraith;
 - effaith - a yw natur y tor-cyfraith yn arwain at fwy o debygolrwydd o dor-cyfraith pellach? A yw'n debygol o achosi, er enghraifft, mesurau rheoli mewmol aneffeithiol, diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth, cofnodion anghywir, posibilrwydd y bydd rhagor o dor-cyfraith yn digwydd?;
 - ymateb - e.e. cymryd camau amserol ac effeithiol i ddatrys tor-cyfraith, hysbysu aelodau'r cynllun lle bo hynny'n briodol; a
 - goblygiadau ehangach - e.e. lle mae tor-cyfraith wedi digwydd yn sgil diffyg gwybodaeth neu systemau a phrosesau gwael yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd tor-cyfraith arall yn dod i'r amlwg yn y dyfodol.
23. Mae'r goeden benderfynu yn darparu system "goleuadau traffig" i gategoreiddio tor-cyfraith sydd wedi ei ganfod:
 - Gwyrdd** - heb ei achosi gan anonestrwydd, llywodraethu gwael neu dorri'r gyfraith yn fwriadol ac nid yw ei effaith yn arwyddocaol ac mae cynllun yn ei le i unioni'r sefyllfa. Mewn achosion o'r fath, ni fydd y tor-cyfraith yn cael ei adrodd i'r Rheoleiddiwr, ond dylid ei gofnodi yn lög tor-cyfraith y Cyngor;
 - Ambr** - nid yw'n cwmpo'n rhwydd i'r categori gwyrdd na choch ac mae angen ei ymchwilio ymhellach i bennu pa gamau i'w cymryd. Efallai y bydd ystyried tor-cyfraith arall sydd wedi'i gofnodi yn berthnasol wrth benderfynu ar y llwybr gweithredu mwyaf priodol. Bydd angen i PPC benderfynu a yw am hysbysu'r Rheoleiddiwr yn anffurfiol am y tor-cyfraith neu'r tor-cyfraith tebygol, gan adrodd yn ffurfiol am y tor-cyfraith os penderfynir wedi hynny i gategoreiddio'r tor-cyfraith yn goch;
 - Coch** - wedi ei achosi gan anonestrwydd, llywodraethu gwael neu dorri'r gyfraith yn fwriadol ac yn cael effaith arwyddocaol hyd yn oed pan fo cynllun yn ei le i unioni'r sefyllfa. Rhaid i PPC adrodd am bob tor-cyfraith o'r fath i'r Rheoleiddiwr ym mhob achos;

24. Dylid nodi bod methiant i adrodd am dor-cyfraith arwyddocaol neu dor-cyfraith tebygol yn debygol, ynndo ef ei hun, o fod yn dor-cyfraith arwyddocaol.
25. Bydd PPC yn defnyddio coeden benderfynu'r Rheoleiddiwr fel dull o adnabod p'un a fydd unrhyw dor-cyfraith yn cael ei ystyried fel un arwyddocaol ac felly yn cael ei adrodd i'r Rheoleiddiwr.



Y broses ar gyfer adrodd am dor-cyfraith

26. Mae cyfrifoldeb ar holl swyddogion, aelodau etholedig ac aelodau byrddau pensiwn lleol sy'n cyflawni dyletswyddau yn rhinwedd PPC i adrodd ar dor-cyfraith. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen cymorth ar unigolion sy'n amau fod dor-cyfraith wedi digwydd er mwyn ymchwilio ymhellach i fanylion y dor-cyfraith a derbyn cyngor o ran graddau a difrifoldeb y dor-cyfraith. Darperir cefnogaeth gan yr Awdurdod Lletya yn ôl y gofyn.
27. Pan fo unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn y polisi'n credu fod dor-cyfraith perthnasol wedi digwydd, mae'r opsiynau a ganlyn ar gael;
 - Adrodd am y dor-cyfraith yn uniongyrchol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau a darparu unrhyw dystiolaeth gefnogol. Dylai'r unigolyn hefyd ddarparu manylion y dor-cyfraith a'r adroddiad a gyflwynir i'r Awdurdod Lletya i gael ei gynnwys yn y lög dor-cyfraith. Bydd yr Awdurdod Lletya yn

cynnal ymchwiliad pellach ac yn rhoi unrhyw gamau gweithredu adferol ar waith ond ni fydd yn cyflwyno adroddiad tor-cyfraith pellach oni bai y daw gwybodaeth newydd i law.

- Dylid adrodd am y tor-cyfraith i'r Awdurdod Lletya fydd yn cofnodi'r tor-cyfraith ac yn cyflawni unrhyw ymchwiliad pellach yn cynnwys cyngor cyfreithiol a phroffesiynol yn ôl y gofyn. Bydd unrhyw gyfrifoldeb am y broses hon yn sefyll gyda Swyddog a151 yr Awdurdod Lletya. Pan fo'r adroddwr a'r Awdurdod Lletya yn ystyried y tor-cyfraith yn berthnasol, bydd yr Awdurdod Lletya yn adrodd am y tor-cyfraith i'r Rheoleiddiwr ac yn ymdrin ag unrhyw gamau gweithredu a cheisiadau dilynol. Bydd yr Awdurdod Lletya yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r polisi tor-cyfraith hwn.
28. Pan fo'r adroddwr yn credu y byddai adrodd am y tor-cyfraith i'r Awdurdod Lletya yn datgelu i unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am gamymddwyn difrifol fod ymchwiliad yn debygol, ni ddylid adrodd am y tor-cyfraith trwy'r sianelau arferol. Yn hytrach, dylai'r adroddwr ystyried adrodd am y tor-cyfraith yn uniongyrchol i swyddog monitro'r Awdurdod Lleol neu adrodd am y tor-cyfraith yn uniongyrchol i'r Rheoleiddiwr.
29. Byddai enghreifftiau o gamymddwyn difrifol yn cynnwys lladrad, twyll, unrhyw beth sy'n debygol o arwain at weithredu cyfreithiol neu at gynnwys yr heddlu neu awdurdodau rheoleiddio.
30. Bydd yr Awdurdod Lletya yn gyfrifol am gofnodi ac adrodd am dor-cyfraith a thor-cyfraith tebygol fel a ganlyn:
- cofnodi'r holl dor-cyfraith sydd wedi'i ganfod a'r tor-cyfraith tebygol y maent yn ymwybodol ohono yn lög tor-cyfraith PPC;
 - ymchwilio i amgylchiadau'r holl dor-cyfraith sydd wedi'i adrodd a thor-cyfraith tebygol;
 - sicrhau, pan fo angen, bod cynllun gweithredu yn cael ei roi yn ei le ac y gweithredir arno i unioni'r tor-cyfraith sydd wedi'i ganfod ac i sicrhau nad oes tor-cyfraith tebyg pellach yn digwydd eto;
 - adrodd am dor-cyfraith a chamau cywiro i'r Cydbwyllgor
 - adrodd am bob tor-cyfraith perthnasol sydd o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr cyn gynted â phosib ond nid yn hwyrach na mis ar ôl dod yn ymwybodol o'r tor-cyfraith, oni bai y tybir bod y tor-cyfraith yn fater brys neu fod parti arall wedi adrodd amdano.

Sut ddylid adrodd am dor-cyfraith i'r Rheoleiddiwr?

31. Bydd pob tor-cyfraith o bwys perthnasol yn cael ei adrodd i'r Rheoleiddiwr gan ddefnyddio'r porth ar-lein.

Dyma'r ddolen i'r porth: [Cofrestru a mewngofnodi i'r Rheoleiddiwr Pensiynau](#)

Sut mae cofnodion am dor-cyfraith yn cael eu cadw?

32. Mae'r holl dor-cyfraith a'r tor-cyfraith tebygol sydd wedi'u canfod i gael eu hadrodd i'r Awdurdod Lletya cyn gynted â phosib. Bydd yr Awdurdod Lletya yn cofnodi pob tor-cyfraith ar gofnod tor-cyfraith PPC, yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:
- y dyddiad pan ganfuwyd y tor-cyfraith neu'r tor-cyfraith tebygol;
 - enw'r cynllun (Partneriaeth Pensiwn Cymru);
 - unrhyw ddyddiadau perthnasol;
 - disgrifiad o'r tor-cyfraith, ei achos a'i effaith, gan gynnwys y rhesymau y mae, neu pam nad ydyw'n cael ei ystyried i fod o bwys arwyddocaol;

- p'un a ystyrir bod y tor-cyfraith yn goch, ambr neu wyrdd.
- disgrifiad o'r camau a gymerwyd i unioni'r tor-cyfraith;
- disgrifiad cryno o unrhyw oblygiadau mwy hirdymor a champau gweithredu sydd eu hangen i atal tor-cyfraith o fath tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, bydd y cyfrifoldeb am gynnal y lög tor-cyfraith yn perthyn i Swyddog a151 yr Awdurdod Lletya.

Canu'r Gloch

33. Mae'n ddyletswydd statudol i adrodd ar dor-cyfraith. Mewn achosion prin, gallai hyn gynnwys dyletswydd i ganu'r gloch ar ran swyddog, aelod etholedig neu aelod o'r bwrdd pensiwn lleol. Nid yw'r ddyletswydd i adrodd yn diystyru unrhyw ddyletswyddau eraill sydd gan "adroddwr", megis cyfrinachedd. Nid yw unrhyw ddyletswydd o'r fath yn cael ei thorri wrth adrodd i'r Rheoleiddiwr.
34. Mae gan PPC bolisi Canu'r Gloch ar wahân y dylid ei ddilyn yn yr amgylchiadau hyn.
35. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd i adrodd, yn gorbwyso'r 'frait gyfreithiol', felly nid oes yn rhaid datgelu rhai cyfathrebiadau llafar ac ysgrifenedig rhwng unigolion ac ymgynghorydd cyfreithiol proffesiynol, os ydynt yn cwrdd ag egwyddorion braint gyfreithiol.

Gwybodaeth Bellach

36. Os hoffech ragor o fanylion am Bolisi Toriadau a Chamgymeriadau PPC, cysylltwch â walespensionpartnership@carthenshire.gov.uk

Gorffennaf 2023



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

DYDDIAD 20 MEDI 2023

PWNC

DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR – ADOLYGIAD Ch2 2023

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Derbyn cyflwyniad gan y Gweithredwr ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru

RHESYMAU:

Mae Link Fund Solutions, Gweithredwr PPC yn darparu diweddariad adolygiad chwarterol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI), yn ymdrin â'r meysydd allweddol isod:

- Diweddariadau'r Farchnad
- Daliannau Presennol y Gronfa
- Diweddariadau ar yr is-gronfeydd a mentrau eraill
- Diweddariad corfforaethol ac ymgysylltu

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 20 MEDI 2023

DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR – ADOLYGIAD CH2 2023

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Cafodd Link Fund Solutions ei benodi'n Weithredwr PPC ym mis Rhagfyr 2017, ac maent yn darparu diweddariad chwarterol i'r CBLI. Mae'r diweddariadau chwarterol hyn yn ymdrin â diweddariadau corfforaethol a diweddariadau'r farchnad, gwybodaeth crynodeb cronfa a diweddariad ymgysylltu yn dangos y protocol ymgysylltu sydd yn ei le a dyddiadau cyfarfod allweddol.

Cyflwynir adolygiad Ch2 (Ebrill i Mehefin) 2023 i'r CBLI ac mae'n darparu'r diweddariadau a ganlyn:

- Diweddariad y farchnad ynglŷn â chaffaeliad arfaethedig Link Fund Solutions
- Crynodeb AUM ar 30 Mehefin 2023
- Newidiadau'r gronfa mewn perthynas â'r gronfa Credyd Byd-eang, cronfa Ecwiti Cynaliadwy a'r gronfa Dwf Byd-eang.
- Mentrau sy'n ymwneud â'r pecyn Gwybodaeth Rheoli ac adrodd ar gamau gweithredu Dosbarth
- Diweddariadau'r farchnad mewn perthynas â Rwsia / Wcráin a LDI
- Diweddariad corfforaethol ac ymgysylltu

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb DIM	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN

Partneriaeth Pensiwn Cymru
Cydbwyllgor Llywodraethu adolygiad
Ch2 2023 - 20 Medi 2023



Diweddariadau'r Farchnad

Caffaeliad Arfaethedig

Fel y trafodwyd ers ein cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar 19 Gorffennaf 2023;

Isod, gweler y diweddariad mewn perthynas â chynnydd gwerthiant busnes Fund Solutions (FS Business) a'r trafodaethau parhaus gydag Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) y DU i setlo ymchwiliad yr FCA yn erbyn Link Fund Solutions Limited (LFSL).

Cyhoeddodd Link Group ar 3 Awst 2023 (amser Sydney) fod gwrth-bartion i'r contractau sy'n cynrycholi'r mwyafrif refeniw trothwy gofynnol mewn perthynas â busnes ACD LFSL a busnes Link Fund Manager Solutions (Iwerddon) Limited wedi cytuno i'r contractau hynny gael eu trosglwyddo i Waystone Group ar ôl cwblhau'r FS Sale.

Mae boddhad yr amodau cydsynio refeniw a thrydydd parti ar gyfer yr FS Sale yn parhau i fod yn amodol ar dderbyn peth cymeradwyaeth rheoleiddio penodol yn y DU ac Iwerddon.

Mae Link Group wedi derbyn cliriad gan y Competition and Consumer Protection Commission of Ireland mewn perthynas â'r FS Sale. Mae Link Group yn disgwyl y bydd yr FS Sale yn cwblhau ym mis Hydref 2023, yn amodol ar fodloni'r amodau sy'n weddill.

Ar 28 Gorffennaf 2023, hysbysodd LFSL y buddsoddwyr yn yr WEIF (Buddsoddwyr WEIF), yn amodol ar ddeilliant y trafodaethau â Link Group a'r FCA, ac argaeledd Uchel Lys Lloegr, bod LFSL yn disgwyl cyhoeddi Llythyr Datganiad Ymarfer ym mis Medi 2023. Bydd y Llythyr Datganiad Ymarfer yn hysbysu Buddsoddwyr WEIF o lansiad ffurfiol y Cynllun ac yn rhoi manylion pellach ynghylch telerau allweddol y Cynllun a'r gwrandawriad llys cyntaf mewn perthynas â'r Cynllun.

Mae'r Setliad sy'n cael ei ystyried gan y Cynllun yn amodol ar gwblhau'r FS Sale. Os daw'r Cynllun yn effeithiol, bydd yn darparu arian, gan gynnwys cyfraniad o hyd at £60 miliwn o Link Group i LFSL, fydd ar gael i wneud taliadau i'r Buddsoddwyr WEIF. Yn gyfnewid am y taliadau hynny i'r buddsoddwyr WEIF, LFSL, Link Group a'u cysylltiadau a'u swyddogion perthnasol, byddant yn derbyn rhyddhad o atebolrwydd sy'n ymwneud â rôl LFSL fel ACD y WEIF.

Mae Link Group yn parhau i fod yn hyderus, hyd yn oed os na chymeradwywyd y Cynllun ac y terfynwyd y Setliad, mae atebolrwydd yn ymwneud â'r WEIF yn parhau o fewn LFSL ac nid oes gan Link Group unrhyw ymrwymiad i gyfrannu at unrhyw rai o'r atebolrwydd hyn sy'n ymwneud â WEIF.

Targedir i'r Gwerthiant gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2023 ac nid yw'n amodol ar y Cynllun neu'r Setliad yn bod yn ddiamedd.


Mehefin 2023 Crynodeb AUM LF Cronfa PP Cymru

Cronfa	AUM	Dyddiad cychwyn
Twf Byd-eang	£3,152,544,871	6 Chwe 2019
Cyfleoedd Byd-eang	£2,872,375,381	14 Chwe 2019
Cyfleoedd y DU	£760,439,759	10 Hyd 2019
Marchnadoedd Datblygol	£356,535,814	20 Hyd 2021
Credyd Sterling	£505,218,736	19 Awst 2020
Credyd Byd-Eang	£822,842,390	21 Awst 2020
Credyd Aml-ased	£677,453,841	12 Awst 2020
Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	£474,633,884	20 Awst 2020
Bond Enillion Absoliwt	£562,410,324	30 Medi 2020
Cronfa Cyfleoedd Ecwiti Gweithredol	£1,282,280,221	20 Mehefin 2023
Cyfanswm Buddsoddiadau Actif	£11,466,735,225	
Cyfanswm Buddsoddiadau Goddefol	£4,738,457,626	
Cyfanswm Asedau Cyfun	£16,205,192,851 fel ar 30 Mehefin 2023	


Braslun o'r Gronfa Mehefin 2023 - Ecwiti

- Key:
- Dyfed
 - Powys
 - Gwynedd
 - RCT
 - Torfaen
 - Clwyd
 - Abertawe
 - Caerdydd


Twf Byd-eang




Cyfleoedd Byd-eang




Cyfleoedd y DU




Marchnadoedd Datblygol



Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy




Goddefol*




* Asedau gyda BlackRock

Braslun o'r Gronfa Mehefin 2023 – Incwm Sefydlog


Credyd Sterling




Credyd Byd-eang




Credyd Aml-ased



Bond Llywodraeth Byd-eang




Bond Dychweliad Absoliwt







- Key:
- Dyfed
 - Powys
 - Gwynedd
 - RCT
 - Torfaen
 - Clwyd
 - Abertawe
 - Caerdydd

Diweddariad Is-gronfeydd



Lansio Cronfeydd a Newidiadau			
	Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Lansio Cronfeydd a Newidiadau sydd wedi'u Cwblhau	Sefydlu Cronfa Ecwiti Cynaliadwy		Cronfa'n Lansio 20 Mehefin 2023, gyda'r trosglwyddiad i Russell Investments o'r Rheolwr Trosglwyddo i fod ar 14 Gorffennaf 2023
Lansio Cronfeydd a Newidiadau Parhaus	Ychwanegu Robeco i'r gronfa Credyd Byd-eang, tynnu T Rowe Price		Rheolwr Buddsoddi Newydd 'Robeco' i gael ei weithredu yn Ch3 2023.
	Ychwanegu Rheolwr Buddsoddi Newydd i'r Gronfa Twf Byd-eang, fel ychwanegiad at Reolwyr presennol		Rheolwr newydd ychwanegol arfaethedig i'w drafod gyda'r Host a Hymans cyn rhannu gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r rhesymeg dros y newid

Tudalen 54

Status key:





	Completed or already in place
	On target;
	Delay Expected;
	Not Applicable

Mentrau


Busnes fel Arfer + Newidiadau Allweddol			
	Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Gwybodaeth Reoli	Symud i gylch Adrodd Chwarterol gyda newidiadau i'r wybodaeth a gafwyd		Cylch Adrodd yn Chwarterol ar waith erbyn hyn
Adrodd ar weithrediadau dosbarth	Cyflwyno adrodd ar weithrediadau dosbarth i'r Sawl sy'n Lletya ar sail chwarterol		Rydym wedi parhau i ddarparu adrodd ar Weithrediadau Dosbarth i'r Awdurdod Lletya

Tudalen 55

Status key:





-  Completed or already in place
-  On target;
-  Delay Expected;
-  Not Applicable

Diweddariadau'r Farchnad

	Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Rwsia / Wcráin	Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd		LFSL i barhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn cynghori Awdurdodau Cyfansoddol o unrhyw ddatblygiadau. Mae ein Pwyllgor Prisio Gwerth Teg yn trafod yn rheolaidd ac mae asedau yn dal i gael eu prisio felly.

Tudalen 56

Status key:

	Completed or already in place
	On target;
	Delay Expected;
	Not Applicable

Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol LFS

Ymgysylltu Allweddol â PPC yn Ch1 ac yn y dyfodol

Presenoldeb Link yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y cyfnod:

- GS 23 Mai 2023

Presenoldeb Link yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y chwarter nesaf:

- CBLI PPC 19 Gorffennaf 2023
- GS 24 Hydref 2023
- Cydbwyllgor Llywodraethu PPC 20 Medi 2023

Link - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau vn y cyfnod:

- Clwyd - cyfarfod Pwyllgor Pensiynau 23 Mehefin 2023

Link - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau vn y chwarter nesaf :

- Cyfarfod Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi Powys - 6 Hydref 2023

Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Sesiwn briffio / hyfforddiant PPC - (Sesiwn gyntaf)

Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Adolygu'r Berthynas Strategol - 20 Medi 2023
- Cyfarfod Ymgysylltu â Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn - 3 Hydref 2023

Protocol Ymgysylltu LFS - Busnes fel Arfer

Adolygu'r Berthynas Strategol	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> Dwywaith y flwyddyn 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau aliniad strategol rhwng yr Awdurdod Lletya a Link
Mynychwyr PPC <ul style="list-style-type: none"> Chris Moore Anthony Parnell Dau Swyddog Adran 151 / Dirprwy Swyddog Adran 151 		Mynychwyr Link <ul style="list-style-type: none"> Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau
Ymgysylltiad â'r CBLI	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> Chwarterol 	<ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu â'r CBLI ar faterion perthnasol a phosibiliadau strategol
Mynychwyr PPC <ul style="list-style-type: none"> Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI) 		Mynychwyr Link <ul style="list-style-type: none"> Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr / Adam Tookey, Pennaeth Cynnyrch – fel bo'r angen Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau Russell Investments
Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> Chwarterol 	<ul style="list-style-type: none"> Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas Rhoi diweddariad ar brosiectau neu faterion sy'n agored Adolygiad DPA Misol (Darperir y data yn fisol)
Mynychwyr PPC <ul style="list-style-type: none"> Gweithgor Swyddogion (GS) 		Mynychwyr Link <ul style="list-style-type: none"> James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen) Swyddogion Link yn mynychu'n ad-hoc o adrannau swyddogaethol: Treth, Cydymffurfiaeth, Cynnyrch ac ati Russell Investments

Sylwer: Gellir cynnal cyfarfodydd o bell ac/neu eu cyfuno lle bo'r angen.

Protocol Ymgysylltu Link (parhad)...

Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya	Amlder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> Bob pythefnos 	<ul style="list-style-type: none"> Cyswllt rheolaidd rhwng yr Awdurdod Lletya – LFS i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes
Mynychwyr PPC <ul style="list-style-type: none"> Anthony Parnell Tracey Williams 		<ul style="list-style-type: none"> Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen) Clair Baguley, Rheolwr Gwasanaeth Cleient (yn ôl yr angen)
Pwyllgorau Cronfa Bensiwn	Amlder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Blynyddol 	<ul style="list-style-type: none"> Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a mentrau ar y gweill
<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfodydd Pwyllgor y Cronfeydd Pensiwn unigol 		<ul style="list-style-type: none"> Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen) Russell Investments
Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr		Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Blynyddol 	<ul style="list-style-type: none"> Diwrnod agored i gael cyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gyda IM)
<ul style="list-style-type: none"> Agored i'r holl bartion ynghlwm 		<ul style="list-style-type: none"> Tim Cleient Link Northern Trust Russell Investments a Rheolwyr Buddsoddi eraill Ymgynghorwyr eraill yn ôl yr angen (e.e. bFinance)
Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn	Amlder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> Dwywaith y flwyddyn 	<ul style="list-style-type: none"> Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a mentrau ar y gweill
Mynychwyr PPC <ul style="list-style-type: none"> Cadeiryddion yr Awdurdodau Cyfansoddol Awdurdod Lletya 		<ul style="list-style-type: none"> Tim Cleient Link Russell Investments

Tudalen 59

Rheolwyr Perthnasau

Enw: James Zealander

Rôl: Uwch Reolwr Perthnasau

Rhif: +44 (0)20 7954 9727

E-bost: James.Zealander@linkeroup.co.uk

Heidi Robinson

Rheolwr Perthnasau

+44 (0) 7843 804917

Heidi.Robinson@linkeroup.co.uk

Pennaeth Perthnasau Cleientiaid

Enw: Richard Thornton

Rôl: Pennaeth Rheoli Perthnasau - Perchnogion Asedau

Rhif: +44 (0)20 7954 9806

E-bost: Richard.Thornton@linkeroup.co.uk

Cyswllt Gweithredol

Enw: Karl Midl

Rôl: PW a Rheolwr Gyfarwyddwr

Rhif: +44 (0)7951 266225

E-bost: karl.midl@linkeroup.co.uk



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

DYDDIAD 20 MEDI 2023

PWNC

ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30 MEHEFIN 2023

ARGYMHELLION / Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY’N OFYNNOL:

Nodi adroddiadau perfformiad yr is-gronfeydd a ganlyn fel ar 30 Mehefin 2023:

- Cronfa Cyfleoedd Byd-eang
- Cronfa Dwf Byd-eang
- Cronfa Marchnadoedd Datblygol
- Cronfa Cyfleoedd y DU
- Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang
- Cronfa Credyd Byd-eang
- Cronfa Credyd Aml-ased
- Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt
- Cronfa Credyd y DU

RHESYMAU:

Mae Northern Trust wedi paratoi adroddiadau perfformiad ar gyfer yr is-gronfeydd fel ar 30 Mehefin 2023.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

**CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

DYDDIAD 20 MEDI 2023

ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30 MEHEFIN 2023

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Northern Trust wedi darparu adroddiadau perfformiad ar gyfer is-gronfeydd PPC fel ar 30 Mehefin 2023.

Perfformiad - O'r Dechrau hyd Yma:

Cronfa Cyfleoedd Byd-eang	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	11.69	11.36
Meincnod	10.53	10.53
Gwarged Adenillion	1.16	0.83

Cronfa Dwf Byd-eang	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	9.77	9.35
Meincnod	10.53	10.53
Gwarged Adenillion	(0.76)	(1.18)

Cronfa Marchnadoedd Datblygol	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	(7.74)	(8.19)
Meincnod	(6.80)	(6.80)
Gwarged Adenillion	(0.94)	(1.39)

Cronfa Cyfleoedd y DU	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	3.39	2.99
Meincnod	3.86	3.86
Gwarged Adenillion	(0.48)	(0.87)

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	(3.84)	(4.08)
Meincnod	(6.19)	(6.19)
Gwarged Adenillion	2.35	2.11

Cronfa Credyd Byd-eang	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	(4.70)	(4.87)
Meincnod	(4.53)	(4.53)
Gwarged Adenillion	(0.17)	(0.34)

Cronfa Credyd Aml-ased	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	0.42	0.08
Targed *	5.26	5.26

Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	2.17	1.86
Targed *	3.31	3.31

Cronfa Credyd y DU	Gros o Ffioedd (%)	Net o Ffioedd (%)
Gwir	(5.81)	(5.94)
Targed *	(6.21)	(6.21)

* NI DDANGOSIR ADENILLION GORMODOL GAN TAW TARGED YW HWN

Hefyd, mae Link a Russell Investments wedi cynhyrchu papur crynodeb, yn rhoi crynodeb o berfformiad pob cronfa unigol ac yn rhoi sylwadau ynghylch pob cronfa unigol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb DIM	Cyfreithiol DIM	Cyllid OES	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
--	---------------------------	----------------------	------------------------------------	-----------------------------------

Cyllid

Mae'r is-gronfeydd wedi perfformio'n well / tanberfformio yn erbyn eu meincnodau / targedau, fel a ganlyn:

- Cyfleoedd Byd-eang – perfformio'n well 1.16% gros / 0.83% net
- Twf Byd-eang – tanberfformio 0.76% gros / 1.18% net
- Marchnadoedd Datblygol – tanberfformio 0.94% gros / 1.39% net
- Cyfleoedd y DU – tanberfformio 0.48% gros / 0.87% net
- Bondiau Llywodraeth Byd-eang – perfformio'n well 2.35% gros / 2.11% net
- Credyd Byd-eang – tanberfformio 0.17% gros / 0.34% net

Nid oedd cronfeydd MAC ac ARB wedi cyrraedd eu targedau.

Roedd cronfa Credyd y DU y tu hwnt i'w tharged.

YMGYNGHORIADAU

Manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir i'w cynnwys yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

GWELER MANYLION ISOD

Teitl y Ddogfen	Rhif Cyfeirnod Ffeil	Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/DOLEN I'R WEFAN


Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cydbwyllgor Llywodraethu – Crynodeb o Berfformiad Ch2 2023


Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Fe ddringodd Mynegai Net y Byd MSCI 6.8% yn yr ail chwarter. Bu data economaidd cadarnhaol a datrysiaid i drafodaethau nenfwd dyledion yr UD yn gymorth i wthio ecwiti yn uwch ym mis Mehefin ar ôl perfformiad distawach ym misoedd Ebrill a Mai. Bu dargyfeiriad ar draws marchnadoedd, gyda'r UD yn ennill y blaen ar y mynegai byd-eang a chymheiriaid datblygedig. Bu cynnydd araf ar reoli chwyddiant a'r disgwyliadau i gyfraddau godi yn y dyfodol yn pwyso ar farchnadoedd yn y DU ac Ewrop. Fe wnaeth doler yr UD gryfhau yn erbyn yr ien Japaneaidd a'r rhan fwyaf o arian nwyddau-sensitif ond gwaniodd yn erbyn y bunt a'r ewro. Aeth prisiau olew i lawr wrth i bryderon am ragolygon y galw byd-eang barhau, yr adferiad araf yn dilyn Covid yn Tsieina yn benodol. Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed), Banc Canolog Ewrop (ECB) a Banc Lloegr (BoE) i gyd godi cyfraddau dros y chwarter, drwy symiau amrywiol.

Perfformiad dosbarth ased – y Chwarter hyd Heddiw (Mehefin) 2023



Perfformiad dosbarth ased – y Flwyddyn hyd Heddiw (Mehefin) 2023



Meincnodau : Global equity hedged (MSCI World ACWI), UK equity (FTSE All Share), US equity hedged (Russell 1000 Net GBPH), Europe ex UK equity (MSCI Europe ex UK Equity Net GBPH), Japan equity (TOPIX Net GBPH), Emerging equity (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB)), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

Cronfa Dwf Ecwiti Byd-eang:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	1.79	10.39	9.77
Net	1.69	9.99	9.35
MSCI AC World Index Net	3.26	11.31	10.53
Gwarged enillion (gros)	-1.47	-0.92	-0.76

Dyddiad Cychwyn: 31 Ionawr 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Dychwelodd y Gronfa 1.8% mewn GBP dros y chwarter ond tanberfformiodd yn erbyn dychweliad y meincnod. Gwerth oedd y ffactor nodedig oedd yn tanberfformio gan gofnodi dychweliad negyddol ar gyfer y chwarter.

Fe wnaeth bias gwerth Pzena danberfformio'r farchnad eang ond perfformiodd yn well na gwerth y mynegai. Fe wnaeth sectorau gwerth arferol gan gynnwys Ynni, Prif Gynhyrchion a Deunyddiau i gyd danberfformio'r farchnad. Er gwaethaf y rhwystrau ym mis Mawrth a achoswyd gan gwymp Banc Silicon Valley, dewis stociau mewn Elfennau Ariannol oedd yr elfen fwyaf cadarnhaol o unrhyw sector. Er gwaethaf marchnad a arweinir gan dwf, roedd perfformiad Baillie Gifford yn unol â'r farchnad. Fe wnaeth dewis stociau gydbwysu tanbwysau'r IT. Arweiniwyd enillion marchnad gyda dychweliad o 10% ar gyfer y sector Technoleg Gwybodaeth, sef y tanbwysau sector mwyaf yn y Gronfa Dwf Byd-eang ar -10.3%. Fe wnaeth cryfder y galw am raffeg Nvidia a phrosesyddion AI synnu'r farchnad, gan arwain at rali 50% yn y stoc a sbarduno rali eang yn y sector. Y sector gorbwysiad mwyaf yw gofal iechyd a gollodd dir dros y chwarter a ddwysawyd gan weithrediadau stoc siomedig gan Novocure, Bio Rad Labs ac Illumina. Fe wnaeth y rhagolygon o newid dwylo sbarduno rali chwarter cyntaf yn naliad Veritas o Catalent; fodd bynnag, rhoddwyd y gorau i'r dychweliad hwnnw yn yr ail chwarter. Cyfrannodd gofal iechyd at oddeutu dwy ran o dair o danberfformiad yn y chwarter. Bu i ddewis stociau o fewn sector Disgresiwn y Defnyddwyr lunio balans y tanberfformiad.

Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	3.02	11.92	11.69
Net	2.94	11.61	11.36
MSCI AC World Index Net	3.26	11.31	10.53
Gwarged enillion (gros)	-0.25	0.61	1.16

Dyddiad Cychwyn: COB 31 Ionawr 2019

Ffynhonnell: Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau absoliwt positif dros yr ail chwarter ond tanberfformiodd fymryn yn erbyn y meincnod ar sail gymharol.

Fel y chwarter cyntaf, twf a chapiau mawr oedd y dulliau a berfformiodd orau, gan berfformio'n sylweddol well na'r mynegai. Fodd bynnag, gyrrwyd perfformiad twf gan yr UD wrth i'r ffactor lusgo yn Ewrop cyn DU a Siapan. Isafswm cyfnewidioldeb oedd y ffactor a berfformiodd waethaf. Technoleg gwybodaeth oedd y sector a berfformiodd orau, a gafodd ei hybu gan ganlyniadau enillion cryf gan gwmnïau technoleg mawr yn y DU a'r cyffro ynghylch y potensial mewn AI. Fe wnaeth disgresiwn defnyddwyr hefyd wneud enillion sylweddol. Mewn cyferbyniad, cyfleustodau, ynni a deunyddiau oedd y sectorau gyda'r perfformiad gwanaf.

Sylwadau ar y Farchnad EM

Enillodd Mynegai Marchnadoedd Datblygol (EM) MSCI (USD) 0.9%. Fe wnaeth gwell sentiment gan fuddsoddwyr arwain at berfformiad Mehefin cadarnhaol a helpu'r farchnad i ddod dros ddychweliadau negatiff misedd Ebrill a Mai. Fodd bynnag, roedd EM yn arafach na marchnadoedd datblygedig yn gyffredinol oherwydd 'selloff' gyda Tsieina, gan fod pryderon cynyddol am gryfder yr economi yn pwysu ar ddychweliadau. Aeth prisiau olew i lawr gan fod y rhagolygon ansicr am alw byd-eang yn parhau.

Cronfa Cyfleoedd Ecwiti EM:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	-2.28	-0.45	-7.74
Net	-2.40	-0.94	-8.19
Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI	-1.50	-1.34	-6.80
Gwarged enillion (gros)	-0.78	0.89	-0.94

Targed Perfformiad yw Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI + 1.5%

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Hydref 2021

Ffynhonnell: Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

